**Y Pwyllgor Deisebau**
—
**Petitions Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Deisebau@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Petitions@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

Jeremy Miles AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Copi at Russell George AS, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

3 Chwefror 2025

Annwyl Ysgrifennydd Cabinet,

**Deisebau P-06-1220 Cynyddu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer Gwasanaethau Iechyd, Addysg ac Ymwybyddiaeth Menywod a P-06-1242 Gwella Gofal Iechyd Endometriosis yng Nghymru**

Trafododd Pwyllgor Deisebau'r Senedd y deisebau uchod, a gyflwynwyd gan Larissa Richardson a Beth Hales yn y drefn honno, yn ei gyfarfod ar 20 Ionawr.

Nododd yr Aelodau fod Beth Hales, yn ei gohebiaeth â'r Pwyllgor, wedi gofyn am fwy o eglurder ar gwestiwn a ofynnwyd gan Jenny Rathbone yn y ddadl ar 10 Rhagfyr 2024 ar y Cynllun Iechyd Menywod (paragraff 441). Cytunodd y Pwyllgor y byddwn yn ysgrifennu i gael ateb i'r cwestiwn hwn sy'n ceisio mwy o wybodaeth am fodel ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu canolfannau trydyddol pellach a gofal trydyddol ar gyfer endometriosis. Rwyf wedi atodi gohebiaeth y deisebydd er gwybodaeth.

Bydd y Pwyllgor hefyd yn ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant i ofyn sut y mae'r Cynllun yn mynd i'r afael â chasglu data penodol ar endometriosis.

Anfonwyd copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn y Senedd i lywio gwaith craffu'r Pwyllgor ar y Cynllun Iechyd.

Mae'r manylion llawn am drafodaeth y Pwyllgor ar y deisebau, gan gynnwys yr ohebiaeth a'r camau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor, ar gael yma: P-06-1220 Cynyddu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer Gwasanaethau Iechyd, Addysg ac Ymwybyddiaeth Menywod a P-06-1242 Gwella Gofal Iechyd Endometriosis yng Nghymru

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon eich ymateb dros e-bost at y tîm clercio yn deisebau@senedd.cymru

Yn gywir,

Carolyn

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.